

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2022

Enw'r Elusen: Cymdeithas Côr Meibion Caerfyrddin

Rhif cofrestredig: 259482

Cyfeiriad: Cyfeiriad yr Ysgrifennydd : Tŷ Hir, Picton Court, Caerfyrddin SA31 3DQ)

Ymddiriedolwyr:

Kevin Thomas (Cadeirydd)

Haydn Lloyd (Is-Gadeirydd)

Ieuan Phillips (Trysorydd)

Huw Michael (Ysgrifennydd)

Dogfen Rheolaeth: Y Cyfansoddiad a fabwysiadwyd ar 22/08/2017

Amcanion:

Amcanion y Côr yw hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am ganu corawl ymhlith y cyhoedd, a dysgu a pherfformio darnau corawl yn gyhoeddus, tra'n cynorthwyo achosion elusennol.

Gweithgareddau a Chyflawniadau 2022

Rheolaeth

Nid oedd newidiadau i Gyfansoddiad y côr yn ystod 2022.

Swyddogion.

Penodwyd Kevin Thomas yn Gadeirydd yn y CCB, Haydn Lloyd yn Is-Gadeirydd, a Dewi Jones yn Llyfrgellydd. Daeth Felix Merry yn Gynrychiolydd Adran ar gyfer B1, a Richard Evans ar gyfer B2. Cytunodd Huw Michael i barhau fel Ysgrifennydd a Ieuan Phillips fel Trysorydd. Cytunodd Jeff Thomas (B1) hefyd i barhau fel Llywydd.

Aelodaeth

Penderfynwyd i ostwng y tâl aelodaeth i £60 am y flwyddyn 2022 yn unig am y tro, i leihau'r baich ar yr aelodau presennol ac i ddenu aelodau newydd. Fe gynhyrchwyd taflenni i hysbysebu'r Côr a'u gosod mewn llefydd amlwg o gwmpas Caerfyrddin. Gwnaeth Kevin gais am aelodau newydd yn y Cwlb Cinio hefyd, a bu Haydn ar Rhaglen Geraint Lloyd ar Radio Cymru yn hysbysebu'r côr.

Bu farw cyn Gadeirydd y Côr, Wyn Evans (B2), a chymar Heather ein cyfeilyddes, ym mis Ebrill ar ôl cyfnod o salwch. Bu farw John Gibby, Llywydd Oes y Côr ym mis Ebrill, a'i wraig, Muriel, ym mis Medi. Bu farw Iris, gwraig Eirwyn Williams (T2), hefyd yn ystod y flwyddyn. Heddwch i'w llwch.

Bu nifer o aelodau yn absennol o achos afiechyd gan gynnwys Arwyn Hughes (T1), Clive Pugh (B2), a Paul Endicott (T1). Gobeithiwn eu croesawu nôl i'n plith rywbryd yn 2023.

Gadawodd Peter Davies (B1) a Kevin Gilbert (T2) y Côr ddechrau'r flwyddyn.

Daeth 5 aelod newydd i ymuno â'r Côr yn ystod y flwyddyn: Eifion Lewis (T2), Nigel Williams (T2), Nigel Lewis (T1), Vince James (B1) (ail-ymuno) a John Etherington (B2).

Nifer aelodau'r côr ar ddiwedd 2022 yw 27 heb gynnwys y sawl sy'n absennol o achos afiechyd.

Presenoldeb

Siomedig oedd y presenoldeb ar ddechrau'r flwyddyn ond erbyn dechrau'r Haf roeddem yn cael dros 20 yn yr ymarfer wythnosol yn gyson.

Cyngherddau

Buon yn canu gyda tri Chôr arall yn y Cyngerdd i ddathlu penblwydd Côr Meibion Porth Tywyn yn 60 oed yn Theatr y Ffwrnais ar y 5ed o Dachwedd.

Cyngerdd garolau Elusen Tenovus yn Eglwys Crist ar y 1af o Rhagfyr..

Perfformiadau Eraill

- Y Parc yng Ngherfyrddin ar achlysur cynnau'r begwn ar gyfer Jiwibili y Frenhines ar y 2il o Fehefin.
- Y Parc ar ddydd Sadwrn 9fed o Orffennaf fel rhan o adloniant Sadwrn Cyngor Dref Caerfyrddin.
- Yr Egin ar y 15fed o Hydref fel rhan o Wyl yr Hydref.
- Diwrnod cynnau goleuadau Nadolig y dre ar Ddydd Sadwrn Tachwedd 19.
- Cartref Gofal Plasydderwen 6ed o Ragfyr.
- Plygain Merched y Wawr ar y 11eg o Rhagfyr yn y Priordy (6 ohonom!).

Priodasau

4 Mehefin 2022: Priodas yn Nghanolfan Ceridwen, Fferm Penybanc, Drefach Felindre (Nathan ac Amy)

9 Gorffennaf 2022: Priodas yng Nghapel Newydd, Llanddarog (Carys a Kristen)

21 Medi 2022 : Priodas yn Y Courtyard, (Fferm Pengay), Glanyfferi (Bobby a Fay)

Angladd

Daeth nifer dda o aelodau'r côr i angladd Wyn Tegryn Evans yn y Priordy ar 12fed o Ebrill ynghyd ag aelodau o Côr Meibion De Cymru. Codwyd y tô wrth ganu hoff emyn Wyn, "Tŷ Ddewi".

Elusennau

Cyfrannwyd £50 at apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr yn gysylltiedig â'n rhan yn y Blygain.

Cymdeithasol

Tê prynhawn ar Rheilffordd Gwili ym mis Awst.

Gwnaeth nifer o aelodau'r Côr gyfarfod ag aelodau Côr Meibion Cymry Rhydychen yng Nghwesty'r Llwyn Iorwg ar nos Iau Tachwedd 17eg a chafwyd noson hwylus yn canu yn y bar.

Cafwyd noson hwylus yng Nghlwb y Cwins ar ôl ein perfformiad yng Nghartef Plasydderwen ar y 6ed o Ragfyr.

Pwyllgor y Gwagedd

Dymuna'r Côr ddiolch i Bwyllgor y Gwagedd am eu cefnogaeth parhaol, yn enwedig am ofalu am y gwisgoedd, ac am drefnu'r Tê ar y Rheilffordd ym mis Awst.

Repertoire

Roedd y pwyslais ar ddysgu darnau fydd yn cael eu canu yn nghyngherddau CCMC: cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd ym mis Mehefin 2023, a chyngerdd Neuadd Albert Llundain sydd bellach wedi ei ohorio tan Ebrill 2024. Dysgon ni ddau garol Newydd ar gyfer y Nadolig hefyd: Stori'r Preseb ac Ave Maria.

Mae rhestr llawn repertoire'r côr ar ein gwefan.

Arweinydd a Chyfeilyddes

Dymuna'r Ymddiriedolwyr fynegu eu gwerthfawrogiad am wasanaeth y Parchedig Wyn Maskell a Ms Heather Williams. Mae Wyn yn dal i deithio i Gaerfyrddin i arwain y côr yn wythnosol. Rydyn yn ffodus iawn i'w cael.